Gair bach Bethlehem 6

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem Gwaelod-y-garth Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 6 2020

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Her i Huw

Os gwelsoch chi fellten felen yn pasio ar feic y dydd o'r blaen, mae'n bosib mai Huw Llywelyn Davies oedd e, a hynny ar daith arbennig iawn. Trowch i dudalen 4 am yr hanes yn llawn yng ngeiriau Huw ei hunan.

Mae yna feiciwr arall yn sôn am ei brofiadau ar y dudalen ganlynol!

Hefyd, tybed allwch chi ddatrys dirgelwch yr englyn ar ddrws y tŷ bach! (Tud 6)

Babi Newydd

Braf gallu cofnodi bod yna fabi newydd yn y fro. Mae Wyn a Heulwen Jones, Yr Eglwys Newydd, wedi cael wyres fach newydd o'r enw Miriam Haf. Cafodd hi ei geni Ddydd Gwener 24ain o Ebrill. Merch fach arall i Ieuan Wyn ag Angharad a chwaer fach newydd i Greta.

Llongyfarchiadau i'r teulu i gyd.

Meilir yn arall-gyfeirio

Rydyn ni gyd wedi gorfod troi ein llaw at rywbeth newydd dros y cyfnod rhyfedd hwn. Ar y chwith gwelwn Meilir Sion yn peintio un o "bileri'r achos" yn yr Eglwys Newydd!

Mae hanes difyr am un arall sy'n troi ei law at bethau newydd ar dudalen dan y pennawd "Wabi-Sabi". Dim rhagor o gliwiau – rhaid i chi ddarllen eich ffordd at y dudalen dan sylw!

YN Y RHIFYN HWN

Delwyn, Yr Ysgol Sul	2
Hiwmor o'r cwrdd / Gair o'r Gwaelod	3
Her i Huw	4
Hwyr a bore	5
Tŷ Bach y Ddolgam	6
Oedfa'r Sul – Gwenno Huws	7
Lluniau o'r archif	8 & 9
Jwg Huw Jones Glandeulyn	10
Yn y dechreuad	11
Wabi-Sabi	12
Ymlyniad deugain mlynedd	13
Pantycelyn / Odlau'r Garth	14

Rydyn ni'n anfon ein cofion at bawb o aelodau a chyfeillion Bethlehem.

Cofion arbennig at y rhai sydd heb fod yn eu llawn iechyd.

Edrychwn ymlaen at weld ein gilydd cyn bo hir.

"Yn y funed!" — *Delwyn Sion*

“I’ll do it now, in a minute!” - Sai’n cofio faint o weithiau gwaeddodd mam lan sdâr "Wyt ti ‘di clirio’r “mess” ‘na?"
A’r ateb wastad o’dd “Na’i neud e nawr mewn munud!”
Ie, nawr! mewn munud! Rhwng 1967 a 2019; ar Radio 4, bydde Nicholas Parsons yn gofyn i amrywiol banelwyr i siarad am un pwnc, am un funud, ar rhaglen o’r enw “Just a Minute.
Y gerddoriaeth agoriadol? Ie, y “Minute Waltz” gan Chopin. Ac ry’ ni wrandawyr Radio Cymru’n gyfarwydd a “Munud i Feddwl.” Ac mi fentraf i nad oes yr un ohonom ni’n gallu meddwl am y gair “munud” heb feddwl am gerdd Waldo, “Cofio”, a’i “Un funud fach …” A dydd Mawrth diwethaf fe oedodd y wlad i gyd am un funud fach, un funud fach i gofio’r aelodau hynny o’r Gwasanaeth Iechyd a gollwyd oherwydd Feirws Covid 19. Cofio. A hynny mewn distawrwydd.
Yn ei gan “The Sounds of Silence” mae Paul Simon yn awgrymu bod geiriau’n gallu mynd ar goll, “ Words like silent raindrops fell, and echoed in the wells of Silence”, ac mae’n wir ondywe? Weithiau mae geiriau’n syrthio’n brin, ac mae tawelwch yn gallu dweud cymaint mwy.
“Yn y dwys ddistawrwydd dywed air, fy Nuw ”
Diolch. *Delwyn*

Yr Ysgol Sul — *Heulwen Jones*

Stori Jona oedd y wers i blant yr Ysgol Sul wythnos dwetha a’r tasgau oedd i greu model neu lun o’r pysgodyn mawr, neu lun o du fewn i fol y pysgodyn, a dyna wnaeth nifer o’r plant. Tasg arall oedd i wneud jig-so o’r pysgodyn ar y we. Ac fe ganodd Gwenni (i gyfeiliant Leah ar yr ukelele) gan am drychfilod roedd hi wedi cyfansoddi. Cawsom hefyd sgwrs fach ddiddorol iawn gan Delwyn – falle gwneith e rhannu fe gyda ni yn Gair Bach Bethlehem rhywbryd. Uchod, fe welwch rai o’r lluniau.
Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd ar-lein dydd Sul nesa eto ar yr un amser (10.30) ac y mae croeso i unrhyw un ymuno â'r sesiwn.
Y drefn ydy bod Heulwen yn anfon linc yn uniongyrchol i’r teuluoedd. Os oes unrhyw un arall am ymuno, yna mae angen iddyn nhw rhoi gwybod i Heulwen ar e-bost neu ffôn *(manylion isod)* ac fe wnaiff hi "hala’r linc" iddyn nhw.

Heulwen Jones heulwen@btinternet.com 07779 360614

Hiwmor o'r cwrdd

Holwr wrth ddrws Cyfarfod Misol: "Oes yna Barchedig R. Dewi Williams i mewn yn fanna?"
Porthor: Wn i ddim – ond mae 'na rhyw **Williams ar dewi** yna gobeithio!

¤~¤~¤~¤~¤~

Plentyn, wrth i'r cennad fwyta ei ginio: "Ydach chi'n teimlo'n well, felly?"
Cennad: "Yn teimlo'n well? Pam wyt ti'n holi?"
Plentyn: "Nhad oedd yn dweud eich bod yn **wael iawn** yn y capel bore 'ma!"

¤~¤~¤~¤~¤~

Pregethwr yn camu i'r pulpud ac agor Y Beibl yn y modd mwya' dramatig.
Geneth fach yn y rhes flaen: "Beth mae hynna'n ei olygu, Dadi?"
Tad: "Mae'n golygu ei fod yn mynd i ddweud pethau pwysig am Y Beibl."
Y pregethwr yn tynnu bwndel o bapurau o'i boced a'u gosod yn ofalus ar y pulpud.
Geneth: "Beth mae hynna'n ei olygu, Dadi?"
Tad: "Ei fod yn mynd i esbonio popeth yn y stori sydd yn Y Beibl."
Y pregethwr yn tynnu ei watsh oddi ar ei arddwrn a'i roi ar ochr y pulpud.
Geneth: "Beth mae hynny'n ei olygu, Dadi?"
Tad: "**Dim byd** o gwbl."

GAIR O'R GWAELOD ***Colofn cwbl an-olygyddol!***

Y tro hwn - eich Geiriau chi am y Gair Bach

Daeth y geiriau isod fel clod a diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y rhifynnau:

- Gair bach. Cymwynas fawr
- Edrych ymlaen i weld y rhifyn nesa.
- Hoffwn ddweud gymaint rydyn ni wedi mwynhau darllen ac edrych ar ein cylchgrawn newydd ni – GBB.
- Diolch am Gair Bach unwaith eto.
- Dwi wir yn mwynhau darllen e, fel ma' aelodau eraill o'r teulu o bell ac agos. Uchafbwynt yr wythnos i fi.
- Da gweld fod y Bwletin yn mynd o nerth i nerth - diolch amdano.
- Diolch i bawb am eu cyfraniad i rhifyn 5 o air bach Bethlehem. Gwerthfawr iawn.
- Diolch am 'Air bach Bethlehem' unwaith yn rhagor.
- Y mawredd mowr! Gwychder y cyfraniade a diwyg gwahanol i bob ebychiad bron! Llongyfarchiade gwresoca a diolch yn dalpe.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu ac anfon neges o werthfawrogiad.
Daliwch ati! Anfonwch eich cyfraniad nesaf.

('Doeddwn i ddim yn dychmygu byddai'r rhifyn cyntaf yn ennyn cymaint o frwdfrydedd, o gefnogaeth a chyfraniadau o'ch plith, wedi hynny. Tan tro nesa - hwyl a daliwch i sgwennu!)

Ifan (***tycnau@aol.com***)

Her i Huw

Huw Llywelyn Davies

Na, does dim modd mynd i weld y teulu; dim cymdeithasu a gloddesta gyda ffrindie o gwmpas y ford; dim galw mewn yn y cwrdd na'r clwb rygbi; dim gêm i'w gwylio; dim practis côr. Ma'r feirws yn fwrn ond hefyd - mewn ffordd ryfedd -mae 'na ambell fantes. Rwy'n dechre dod i ddeall y dechnoleg newydd wrth straffaglu i gysylltu ar "Facetime" gyda Rhodri, Catrin a'r plant; llai llwyddiannus hyd yn hyn yw'r "Zoom" o bractis y Côr Meibion ar Nos Sul - ond fe ddaw mae'n siŵr - ac ma' cael sgwrs a laff gyda'r criw yn donic ta beth!

Dechrau'r daith

Hefyd ma'r ardd yn fwy teidi nag y bu eriôd wedwn i; dwi wedi dod i nabod y filltir sgwâr yma ym Mhentyrch yn llawer gwell wrth grwydro - o fewn y canllawie! - yr holl lwybre cyhoeddus sy' yn y cyffinie - ni wedi bod mor lwcus gyda'r tywydd a ble ni'n byw - ac ma'r beic wedi dod mâs o'r garej am y tro cynta mewn deng mlynedd! A dyna hanfod yr hanes.

Cwpwl o filltiroedd o gwmpas yr ardal yn llawn digon ar y dechre, ond yna daeth y cais oddi wrth Ysbyty Felindre. Rwy'n llysgennad i'r elusen, ac yn browd o gael bod - a byrdwn y neges o'dd bod y coffre'n diodde'n aruthrol gan fod dim modd cynnal y digwyddiade arferol i godi arian. Marathon Llundain yw'r pwysica o'r rheiny o'dd i fod i ddigwydd y Sul diwetha - 26 milltir ar y 26ain o Ebrill.

Yr her felly o'dd gwneud unrhyw weithgaredd yn cynnwys y ddau rif 2 a 6 - 26 o "sit ups" yn y tŷ odd un awgrym; cerdded 2.6 milltir; gweithio'n yr ardd am 26 muned ayb. Ond rhaid o'dd anelu'n uwch - ac mewn ffydd ne' yn ffôl - 26 milltir - heb stop - ar y beic odd y penderfyniad! Tasg hawdd fi'n gwbod i feicwyr ifanc a ffit; nid felly i hen bensiynwr 75 oed yn cario tamed bach, bach - ok - lot gormod o bwyse ! - ag ynte yn y cyfrwy am y tro 1af mewn degawd! (Ai yr un person, gyda llaw yw'r beiciwr â'r aderyn hwnnw odd wedi colli ei blu yn y llun ymddangosodd mewn rhifyn diweddar o drip Ysgol Sul slawer dydd i - yn addas iawn - Slimbridge! Sgersli bilîf !!)

Beth felly am y daith? Y bwriad gwreiddiol o'dd mynd ar lwybr Afon Tâf lawr i'r Bae a'r Morglawdd. Tir gwastad yr holl ffordd bron - braidd dim tyle o gwbwl - ond am y filltir a hanner ola' nôl gartre. Dyna un anfantes o fyw ym Mhentyrch - rhiw serth i'w dringo o unrhyw gyfeiriad nôl i'r pentre. Ond - Rhodri'r mab yn gweud NA ! Y llwybr ar hyd yr afon yn llawer rhy gul a phoblog, a gormod o bobl yn heidio i'r Bae beth bynnag - yn enwedig ar brynhawn Sul heulog. Mark Drakeford trannoeth yn eilio rhybudd y mab - dim pellach na 10 milltir o gartre! Rhaid o'dd ufuddhau! Cwrs arall felly - a sawl tyle serth ar hwn. Rhyfedd - chi ddim yn sylwi ar y rhiwie yma mewn car! Ond dim dewis - fore Sul - lawr Heol Goch a throi i'r Gwaelod - ble arall ar y Saboth! Ond heibio i Fethlehem y tro hwn a mlân â fi. Y Ddraenen Wen; nôl drwy Drefforest a Ffynnon Dâf; draw i Radur; i'r chwith at y dre ond troi lawr heibio i Ysgol Plasmawr, Y Tyllgoed, Sain Ffagan, gwyro at Lanbedr y Fro, Gwern y Steeple (Oes unrhywun all roi eglurhad o'r enw rhyfedd hwn?). Yna Pendeulwyn, Clawdd- Coch, Croesi'r M4, Tafarn y Castell Mynach, Y Groesfaen, Y Creigiau ac yna'r filltir greulon ola' 'na yn dringo nôl i'r pentre.

Y prawf

"Byth eto!"

Cymal ola' gorfoleddus - yn dal yn y Siersi Felen - ond - dim golwg o'r Arc de Triomphe! Na - doeddwn i ddim ar y Champs Elyseé, gyda'r miloedd yn cymeradwyo, ond lawr Heol y Parc gyda Carol yno'n ffigwr unig yn barod i dynnu llun! Blinedig - ond balch!! Dwi ddim yn agos at gyrraedd yr anhygoel Capten Tom wrth gwrs - o ran oedran nac arian - ond o leia fe gadwodd y coese i bedlo yr holl ffordd - ac ro'dd yn bendant werth yr ymdrech wrth weld y cyfraniade hael yn llifo mewn at achos hollbwysig a theilwng iawn!

Doedd Huw ddim am inni e bostio'r aelodau i sôn am hyn gan fod Bethlehem yn mabwysiadu ei helusen ei hun bob blwyddyn, beth bynnag. Ond os oes unrhyw un yn awyddus i gyfrannu – dyma'r manylion: Ewch ar wefan JustGiving.com a theipio 'Huw Davies' yn y ffenest chwilota. Dylai safle "***Her i Huw 26***" ymddangos. Ewch ymlaen o'r fan honno.

Ifan

Hwyr a bore

R Alun Evans

ALUN IFANS, y diweddar ... sy'n bennawd mwy cysurlon na'r 'diweddar Alun Ifans'! Cas beth gen i yw bod yn hwyr i gyhoeddiad. Mae'n well gen i fod hanner awr yn gynnar na hanner munud yn hwyr. Ond dyma enghraifft neu ddwy o Robert Alun yn cyrraedd yn hwyr ar fore Sul.

Yn nyddiau coleg roedd gen i feic. Dwi'n cofio ei liw hyd heddiw – 'periwinkle blue'. Yn aml iawn fe fyddwn i'n seiclo yn fy siwt ddydd Sul i 'nghyhoeddiad. Dim lycra; dim sgidie sbeic. Y lle pellaf o Fangor y bûm iddo ar fy meic oedd Dolwyddelan. Tipyn o waith dringo o Fangor i Fethesda; mwy fyth o ddringo wedyn trwy Nant Ffrancon i Gapel Curig. Ffordd wastad am sbel ac yna i lawr ar fy mhen i Fetws-y-coed ac ymlaen eto i Ddolwyddelan; taith o rhyw ugain milltir neu ddeg cilomedr ar hugain. Pregethu dair gwaith; wedyn seiclo ugain milltir yn ôl i Fangor. Dyna beth yw bod yn ifanc !

Taith ferrach o lawer oedd honno o Fangor i Frynsiencyn ym Môn. Gadael Coleg Bala-Bangor yn brydlon a chyrraedd Brynsiencyn tua pum munud i ddeg. Gweld capel a chlymu'r beic wrth bostyn. Doedd neb yn y cyntedd i'm croesawu. Doedd neb yn y sêt fawr chwaith. Eistedd yno am rai munudau, yna dringo i'r pulpud. Syrthiodd y geiniog pan estynnais am y llyfr emynau – Emynau a Thonau. I lawr a mi at yr organ a gofyn i'r wraig oedd yn canu'r offeryn "Capel yr Annibynwyr ydi hwn?" "Naci tad! Capal John Wilias." Eglwys Gadeiriol yr Hen Gorff ar yr ynys. Wrth i mi frysio allan deuthum wyneb yn wyneb â'r Parchedig Gwilym Williams, Gweinidog Tŵr Gwyn Bangor, a'r blaenoriaid ar eu ffordd i mewn o'r festri.

Tu allan doedd neb o gwmpas i holi ble'r oedd capel yr Annibynwyr a chyrhaeddais yn hwyr, iawn. Croeso? Do, o fath - gan fy atgoffa am lun Curnow Vosper o gapel Salem lle mae pawb yn eu seddau cyn deg. Hyd yn oed y diafol!

Gwerthwyd y beic a phrynu hen fen GPO. Teithio o'r Ganllwyd i Gwyddelwern oeddwn i'r tro hwn. Cyn pasio fy mhrawf gyrru roedd angen gyrrwr profiadol i ddod gyda mi. Guto, fy nghefnder wnaeth y gymwynas. Trwy Ddolgellau am y Bala ac ymlaen am Gorwen. Wrth ymuno â'r A5 yn y Ddwyryd rhoi fy nhroed ar y brêc. Dim yn digwydd, na dim yn dod i nghyfarfod i mwya'r lwc. O fan'no ymlaen, Guto'n dreifio ar y brêc llaw. Cyrraedd yn hwyr a'r gynulleidfa ar ei thraed yn canu'r ail emyn 'O rho dy law i'r ieuanc sydd yn colli'r ffordd ar ganol dydd ...' Stori wir, a gwir hefyd na chefais i erioed wahoddiad arall i bregethu yng Ngwyddelwern!



Na – nid dyma'r cerbyd gwyllt go iawn o eiddo'r awdur. (Hen fen GPO ac nid R - AL ddywedodd o!)

RAlun

Awydd anfon cyfraniad i'r rhifyn nesaf?

Erbyn Mai 7fed at: tycnau@aol.com

Tŷ Bach Y Ddolgam — Cerith Davies



Ar lethre'r Mynydd Du wrth ochor afon Llynfell, rhyw filltir i'r gogledd o bentre Cwmllynfell mae ffarm – Y Ddolgam. Mae teulu mam wedi bod yn ffermio yn y Ddolgam yn sicr ers 1780 ac falle cyn hyn.

Codwyd tŷ "newydd" yn nechre'r ugeinfed ganrif ond "longhouse" oedd yr adeilad gwreiddiol. Yn dair rhan – nawr yn cael eu defnyddio fel 'beudy mawr, 'beudy bach' a 'stapal'. Y stapal oedd y tŷ yn yr hen adeilad – cerrig ar y llawr o flaen y drws a wal uchel o'u hamgylch i amddiffyn y tŷ rhag y tywydd.

Fel crotyn o'n i wrth fy modd yn mynd ac aros gyda nghefnder Emrys Wyn yn y Ddolgam. Gwylie haf yn gwitho ar y gwair, gwylie Pasg, amser golchi a chnifo'r defed ac unrhyw esgus arall. Parodd hyn nes o'n i'n 16 mlwydd oed ac yna gorfod mynd i witho am arian poced gyda'r adeiladwr lleol.

Oedd dim trydan yn y ffarm pryd hynny, dim ystafell ymolchi yn y tŷ 'newydd'(!) a'r tŷ bach ar waelod yr ardd. Tŷ bach pren, to zinc, 'bench seat' efo twll a bwced. Ond – beth oedd yn wahanol am y tŷ bach yma oedd fod englyn wedi 'i ysgrifennu efo pensil tu fewn ar y drws a dros y blynydde ges i ddigon o amser i ddodi fe ar gof. Nawr pwy galle fod yn gyfrifol am yr englyn hwn? Fel mae'n troi mas gall fod yn un o sawl person.

Brawd mamgu oedd Ben Davies – 'Ben Davies Pant-teg' - pregethwr, emynydd, bardd coronog yr eisteddfod genedlaethol. Fe'i ganwyd a'i fagu yn Nolgam ac yn ymwelydd cyson weddill 'i oes. Falle ?

Cefnder i Ben Davies oedd Watcyn Wyn – Sarah, mam Ben, a Nansen, mam Watcyn Wyn, yn ddwy chwaer. Yn y Ddolgam ganed Watcyn Wyn. 'I fam wedi cerdded dros 3 milltir o Brynaman i ymweld a'r teulu a hithe mor feichiog! Dyna pam 'roedd Watcyn Wyn yn gallu dweud "oedd mam ddim mewn pan ges i ngeni." Ai fe oedd yr awdur?

Yn 'i lyfr "Ffrwythau Dethol" mae pennod gan Ben Davies – "Diwrnod angladd Gwydderig". Gwydderig – un o englynwyr gore Cymry ac yn amlwg yn ffrind. Yr adeg honno oedd twr o feirdd yn byw yn ardal Brynaman oedd yn cwrdd i farddoni yn beth o'n nhw yn 'i alw "Y Senedd" ac yn amal fydde Gwilym Wyn o Gwmllynfell yn bresennol fel 'yr aelod dros y Gwledydd Tramor'. Ai un o'r criw yma oedd yn gyfrifol am yr englyn ? Fydde nhw'n gyfarwydd iawn a'r Ddolgam, nid yn unig fel ffrindie, ond oedd mamgu yn enwog yn lleol fel 'herbalist' a tynnwr gwaed ac 'roedd tipyn o bobol yn galw heibio.

Digon posib taw neb o'r uchod sy'n berchen ar yr englyn. Falle fod un o'r teulu wedi 'i glywed yn rhywle a meddwl fod e'n addas i dŷ bach Ddolgam. Ta beth, yn fy nghalon dwi'n lico meddwl fod e wedi 'i ysgrifennu yn unswydd i'n tŷ bach ni.
Dyma fe.

Y geudy hwn a godwyd – i fwrw'r
Holl fara a gnowyd.
Ni ŵyr y Saint faint o fwyd
I dwll angau d'ollyngwyd.

Oedfa ar gyfer Dydd Sul Mai 3ydd **Ffasiwn Geiriau** **Gwenno Huws, Y Barri**

Darlleniad: Unrhyw Salm o'ch dewis.

'Nôl yn y saithdegau, fe dreuliais i dros bedwar mis yn y carchar am fy rhan yng ngweithgareddau Cymdeithas yr Iaith. Roedd hwn yn brofiad gwerthfawr dros ben. Mi ddysgais lawer iawn am bobl eraill ond yn bwysicach fyth, fe ddysgais lawer iawn amdanaf i fy hun.

Fe gafodd Elinor (fy nghyd droseddwr a fy nghyfaill annwyl) a minnau ein caethiwo yng nghanolfan gadw Pucklechurch i ddechrau ac yna am ein bod yn "blant da" fe'n trosglwyddwyd ni i garchar agored yn Stoke on Trent.

Yn y ddau garchar, roedd copi o'r Beibl Saesneg i bob carcharor. Ac ar ôl dipyn o frwydro, fe ganiatawyd i ni gael Beibl Cymraeg yr un.

Mi ddaeth yn ddefod gan Elinor a minnau i gyd-ddarllen Salm bob nos cyn "lights out." Roedd hwn yn amser pwysig i'r ddwy ohonom. Roedd y geiriau yn gysur mawr. Ac ar wahân i ambell floedd o rhyw gell bellennig, yr unig sŵn a glywyd ar ein coridor, oedd y ddwy Gymraes yn darllen barddoniaeth o'r Beibl.

Mae llyfr y Salmau yn agos iawn at fy nghalon. Mi ddysgais nifer o'r Salmau ar fy nghof ar gyfer gwasanaethau yn y capel pan yn blentyn. Ac wrth gwrs, maen nhw wedi eu serio ar fy meddwl byth ers hynny.

Mae geiriau salm yn mynd o dan fy nghroen rhywsut – mae rhywbeth bythol, rhywbeth digyfnewid amdanyn nhw. Hen ffasiwn mae'n siŵr!

Yn ystod y cyfnod meudwyo diweddar yma, mi rydw i fel llawer un arall wedi bod yn mynd allan am dro i gael ystwytho'r corff a chlirio'r pen. Dwi'n ffodus iawn fy mod yn byw mewn ardal hynod o hardd yn Y Barri. Mae'r môr mwy neu lai ar garreg y drws a mae llwybr yr arfordir gerllaw. Perffaith!

Mae'n gyfle i fyfyrio, ac i gymryd stoc. Yn aml iawn, mi fydda i'n adrodd geiriau un o'r salmau yn fy meddwl wrth gerdded *"Arglwydd ein Iôr ni, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear….."* Geiriau oesol, anffasiynol.

Ac wrth sôn am ffasiwn, fe fu gen i ddiddordeb mawr mewn ffasiwn erioed a rhywfodd neu'i gilydd mae ffasiwn yn ymdreiddio i bob maes o'n bywydau – dillad, ceir, bwyd, tai ac yn y blaen

Ond mae'n rhaid fod dylanwad ffasiwn ar ein hiaith ni hefyd (bydd raid i mi ofyn i Peter Wynn!) achos mae nifer o ymadroddion a geiriau i'w clywed y dyddiau yma na chlywyd mohonynt flynyddoedd yn ôl. Ac i ddeud y gwir mae rhai ohonyn nhw yn gwneud i mi wingo!

Dau air sydd i'w clywed yn gyson y dyddiau yma ydy "Dim problem!" Er enghraifft, os ddeudwch chi "Diolch yn fawr" wrth dalu am beint o laeth yn y siop, yn amlach na pheidio, yr ateb ydy "Dim problem"! Pam fase' na broblem? Doedd dim rhaid i chi fynd i odro'r fuwch! Neu os gofynnwch i'r postmon adael eich parsel wrth y drws, yr ateb fel arfer ydy "Dim problem!" Be allai'r broblem fod?! Be ddigwyddodd i'r hen air anffasiynol "Croeso?" Gair gymaint cynhesach a mwy cadarnhaol. Mae yna epidemig o ddeud "Dim problem!" A mae hyn yn eironig wrth feddwl am yr holl broblemau **sydd** o'n cwmpas!

Dau air arall sy'n gwneud i mi wingo ydy "Ti'n iawn?" Erbyn hyn, mae'r ddau air yn cael eu defnyddio mwy fel cyfarchiad yn hytrach na chwestiwn achos yn amlach na pheidio, does neb yn aros i glywed yr ateb! Be ddigwyddodd i'r hen gyfarchiad hen ffasiwn "Wel, sut wyt ti ers talwm?" Ac yna, mae 'na gyfle am sgwrs go iawn!

Wedyn gair arall sy'n hynod o ffasiynol erbyn hyn ydy'r gair bach dinod unsill – "So!" Os wrandewch chi ar bobl yn cael eu cyfweld ar y radio neu'r teledu, yn amlach na pheidio, gair cyntaf eu hateb ydy "So!" Aaaagh!!

Hwyrach fy mod yn mynd yn llai goddefgar wrth fynd yn hŷn ac mai dyma pam mae'r geiriau yma yn mynd gymaint o dan fy nghroen (a mi allwn restru rhagor!) ond un peth rwyf wedi ei ddysgu dros y blynyddoedd, ydy pwysigrwydd **derbyn** pethau.

Ie, yn syml iawn, derbyn digwyddiadau neu amgylchiadau ac unrhyw beth mewn gwirionedd sydd y tu hwnt i fy rheolaeth i.

Mae'r sefyllfa bresennol yn enghraifft berffaith o orfod derbyn sefyllfa. Mae'n rhaid i bob un ohonon ni dderbyn yr hualau a'r cyfyngiadau sy'n cael eu gorfodi arnon ni ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa bresennol efo Covid19 wedi gosod terfynau caeth ar bob un ohonon ni – rhyw fath o garchar agored am a wn i! Ond o leia pan oeddwn i yn y carchar, roedd gen i "release date" i edrych ymlaen ato! Pwy â ŵyr y dyddiau yma pryd fydd ein bywyd "normal" yn dychwelyd.

Ond un peth sydd yn sicr, tra pery'r argyfwng yma a thu hwnt, mi fydd geiriau y Salmau yn parhau i gynnig cysur ac i atgyfnerthu ffydd pob un ohonom:

"Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd… o ble y daw fy nghymorth? Fy nghymorth a ddaw oddi wrth yr Arglwydd , yr Hwn a wnaeth nefoedd a ddaear."

Gweddïwn

O Dduw, yn ystod y cyfnod rhyfedd yma, gad i ni gofio dy fod Ti yna yn ein gwarchod. Rwyt yn ddigyfnewid ac yn gadarn. Helpa ni i ymddiried ynot Ti a helpa ni i gael ffydd i wynebu pob dydd fel y daw. Gofynnwn i ti ein cynnal a'n cysuro. Taena dy adain heddiw dros bawb sydd yn ofnus ac yn fregus.

Maddeua i ni pan fyddwn yn dy amau a maddeua i ni ein meddyliau hunanol. Rho'r awydd ynom i fod yn hael, yn garedig ac yn ofalgar o'n gilydd. A chynorthwya ni i weld cyfle i weithredu dy air drwy fod o gymorth i eraill.

Helpa ni i weld yr addewid a'r gobaith sydd yn dy Enfys a gofynnwn i ti ddisgleirio dy oleuni llachar ar ein llwybrau drwy gydol y daith.

Amen.

Mae'n syndod cymaint o luniau sy'n dod i'r golwg am weithgareddau'r Ysgol Sul ym Methlehem. Y tro hwn, drwy law Ann Passmore y daw'r trysorau - tudalen a hanner ohonyn nhw!



Plant yr Ysgol Sul yn dathlu ar ôl gorffen model o lyfrau'r Beibl. Gobeithio bod chi'n cofio faint o lyfrau sy' yno!

Ymweliad cynta'r Ysgol Sul a'r rhieni â gwersyll Llangrannog yn 1998

Sgwadiau pêl-rwyd a phêl-droed yr Ysgol Sul ar ôl ennill ym mhob adran yng nghystadlaethau Ysgolion Sul De Cymru.

Dosbarth derbyn 1996 – eto o'r archif

Derbyn 15 o ieuenctid yn gyflawn aelodau yng nghyfnod gweinidogaeth Y Parchedig Dr. T.J. Davies.

Rhes flaen: Nerys Pollard, Marged Haf, Carys Lamb, Y Parchedig Ddr. T. J. Davies, Sian Edwards, Catrin Dafydd

Rhes ôl: Aled Rees, Gwion Rhys, Aled Huws, Hywel Roberts, Robert Lamb, Ywain ap Rhys, Owain Jones, Huw Edwards, Dyfan Rose, Alun Evans

Jwg Huw Jones Glandeulyn

Marian Evans, Radur

Pan ges i alwad ffôn gan Wyndham (Richards) yn dweud ei fod wedi mwynhau'r darn am y Gymanfa, mi ddwedodd "Wrth gwrs- mae 'sequel' i honna – band Dyffryn Nantlle a'r Tonic Sol-Ffa."

Allai band Dyffryn Nantlle byth fod yn rhan o'r Gymanfa – roedd gormod o gymanfaoedd yn y dyffryn. Ond yn fwy na dim, byddai cythrel enwadau, heb sôn am gythral canu. Wiw i'r Annibynwyr gymysgu efo'r Methodistiaid, mwy na'r Bedyddwyr efo'r Eglwyswyr!!! Hefyd doedd dim cysylltiad rhwng canu cymanfaol â band. Yr organ oedd y prif offeryn.

Ond am y Sol-Ffa, roedd hwnnw'n rhan o'r paratoi ar gyfer y gymanfa – y Band of Hope i'r plant a'r Ysgol Gân i'r oedolion. (Pan ddaeth John a minnau'n aelodau i Fethlehem roedd Ysgol Gân yma hefyd ar ôl cwrdd nos – a byddai John Charles yn ein hanfon i'r galeri i ganu ein rhannau!). Roedd Sol-Ffa yn rhan annatod o'n bywydau.

Mae jwg ar y dresel yn tŷ ni – jwg Huw Jones Glandeulyn.

Yn y Band of Hope oedden ni'n cael gwersi Sol-Ffa ar y Modulator, ac ar ddechrau fy nghyfnod yn y Band of Hope, brawd fy nhad, Yncl Arthur, oedd y tiwtor. (Mi gyrhaeddodd o, chwarelwr wrth ei waith, fannau uchel yn yr arholiadau, cyn rhoi'r gorau iddi). Byddai'n dod draw ar ôl yr ymarfer i ddweud wrth fy nhad am ein ceryddu am beidio talu sylw – ond nid ni'n tair oedd yn ddrwg, ond y rhai nad oedd ag owns o ddiddordeb!!!

Huw Jones Glandeulyn oedd y nesaf i ymgymryd a'r dasg. Dyn tawel, cerddorol iawn oedd Huw Jones, efo llais Tenor ysgafn. Fo oedd un o'r "codwyr canu" yn y capel, a phan fyddai hwyl ar ryw dôn ac eisiau ei "ripîtio", byddai Huw Jones yn nodio ar yr organyddes, gafael yn ei lyfr emynau a gwneud cylch clocwedd efo'r llyfr ac os oedd yr ail ripît, byddai'n troi ei lyfr ddwywaith yn wrth-glocwedd!!!

Ches i na'm chwiorydd ddim unrhyw drafferth efo'r modulator, na'r trawsgyweiriadau, ond roedd mwy na hynny i Sol-Ffa. Roedd angen dysgu gwerth y nodau sef dau ddot rhwng curiadau a dotiau, llinellau a chomas i ddynodi gwerth y nodyn. Aem trwy lyfrau yn canu "so, so soso, so" ac yn y blaen. Yn ôl fy nhad, torrwyd Twm Thorman allan o'r capel am beidio edrych ar y tiwtor a chanu "sosososos coch "ar dop ei lais!

Daeth Huw Jones at fy rhieni a gofyn a gawsai roi gwersi ychwanegol i mi – er mwyn pasio arholiadau. Cytunwyd ac ar sawl

"P'nawn dydd Sadwrn glawog
Ninnau'n dau heb ddim i'w wneud"

yn ôl Triawd y Coleg, byddai'r gloch drws ffrynt yn canu, a Huw Jones, yn ei gar posh, yn fy hebrwng i Glandeulyn, cael te bach a gwers Sol-Ffa.

A beth am y jwg? Wel mi roiodd Huw Jones y jwg i'n cymdoges ni ac mi ddwedodd hi wrtha i rhyw ddiwrnod, ar ôl i mi briodi, "Ewch a jwg Huw Jones Glandeulyn efo chi i Gaerdydd. Roedd gynno fo dipyn o feddwl ohonoch – a gobaith eich bod wedi elwa o'i wersi."

Does dim dowt NA wnes i fy marc yn y byd cerddorol, ond rydw i'n dal i ddefnyddio Sol-Ffa pan mae angen dysgu rhywbeth yn gyflym. Dw i'n sgwennu'r Sol-Ffa uwchben yr Hen Nodiant, ac yn mynd drwy'r nodau fel rhuban!

Reit Wyndham, dy dro di nesa'!

Mae Marian wedi herio un cyd-aelod uchod i gyfrannu. Beth am i chithau anfon cyfraniad i'r rhifyn nesaf?

Erbyn Mai 7fed ar e-bost: tycnau@aol.com

Hanes cychwyn yr achos yng Ngwaelod-y-garth

[Dyma gofnod o bapurau a gasglwyd gan y diweddar Barchedig Rhys Tudur, cyn-weinidog Bethlehem]

"Yn ystod ugeiniau'r bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg 'roedd nifer fechan o drigolion pentref Gwaelod-y-garth a'r gymdogaeth yn arfer mynd ar y Sul i fyny i gapel Y Groeswen i addoli. Arferai eraill fynd i'r cyfeiriad arall dros Gefn Pentyrch ac i lawr i gapel Taihirion (yn Rhydlafar) i wrando ar Dafydd Jones yn pregethu.
Yn ystod yr wythnos [er y flwyddyn 1820] arferent ddod at ei gilydd yn un o'r tai a elwid "Tai'r Lefel" yn agos at y "gwaith" i gynnal cwrdd Gweddi a chyfeillach. Ond os oeddynt am Gymun neu fedydd yna rhaid oedd mynd i'r Taihirion neu'r Groeswen. Dyna oedd y ddau le agosaf lle gallai'r bobl hynny ymaelodi mewn Eglwys o'r un egwyddorion a hwy eu hunain. Yn naturiol teimlent y ffordd yn hir ac yn flinedig, yn arbennig felly yn

Mae'r capel gwreiddiol yn sefyll o hyd yn "School Lane" Gwaelod-y-garth. Dyma fel y mae'n edrych heddiw.

ystod y gaeaf ond nifer fach oeddynt ac nid oedd ganddynt hyder i gychwyn achos eu hunain.
Yn ystod 1829/30 fe fu diwygiad nerthol drwy Forgannwg, ac fel yr ardaloedd eraill fe adawodd ei ôl ar yr ardal hon. Erbyn 1832 'roedd y bobl yn teimlo'n ddigon ffyddiog i sefydlu Eglwys yn y pentref.
["*Cafodd 14 o aelodau ollyngdod o'r Taihirion i ddyfod yma i ymffurfio yn eglwys. Darfu i rai o aelodau y Groeswen, a gyfaneddent yn yr ardal, ymuno a hwy*."]
Yn yr Efangylydd Mai 1832 ceir y cofnod hwn "*Ar y 3ydd a'r 4ydd Mawrth 1832 agorwyd addoldy newydd perthnasol i'r Annibynwyr a elwir Bethlehem wrth "forge" Pentyrch*."
Dyna oedd dechrau yr hyn a adnabyddwn ni heddiw fel Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Ar ôl treulio 40 mlynedd yn y lle gwreiddiol adeiladwyd capel newydd ac ehangach yn y safle presennol."

“Wabi-Sabi”

Rhys Powys

Iawn! Cyn dechre, mae gen i gyfaddefiad i’w wneud. Ar ôl dros bum-mlynedd-ar-hugain o ddadlau i’r gwrthwyneb, rydw i’n cyfaddef bellach nad yw bod yn “Gyfarwyddwr Teledu” yn swydd allweddol wedi’r cyfan. Wrth i’n doctoriaid, nyrsys, gofalwyr, athrawon ac eraill dorchi llewys i geisio dod â’r argyfwng presennol 'ma i ben rydyn ni, Gyfarwyddwyr Teledu, yn cael “gwybod ein seis”! Ein rôl ni yw aros adre a pheidio ag achosi trafferth!

Felly, dros yr wythnosau d’wethaf yma, rydw i wedi troi fy llaw at ambell jobyn newydd. Fe fûm yn “beintiwr ffens”, eitha llwyddiannus, am rai dyddiau. Wedyn fe rois gynnig ar fod yn “fecanic beic” gan roi gwasanaeth syml i’r chwech beic seiclo sy’n llechu yn y garej. (Oes, mae gen i dri beic fy hun - beic ffordd, beic mynydd a ‘beic mynd i’r gwaith’ yn ogystal â’r beic modur... ond erthygl arall yw honno!). Ac, ar ôl hir-berswâd gan Siân, fe drois fy llaw at fod yn ddyn “rhoi jet-wash i’r patio”.

Rydw i wedi trïo osgoi “rhoi jet-wash i’r patio” ers blynyddoedd... ers degawdau. Wn i ddim pam ond roedd gen i phobia o “roi jet-wash i’r patio”. “Ond does gen i ddim peiriant!” “Mae’n mynd i fwrw glaw!” “Fe wna i fe yn yr haf, dwi’n addo!” “Dwi’n brysur!” Bellach, doedd gen i ddim esgus.

A dweud y gwir, fe wnes i eitha mwynhau “rhoi jet-wash i’r patio”... am y deg munud cyntaf o leiaf. Fe lwyddais i feistroli’r llafn pwerus o ddŵr yn bur sydyn gan sgwennu fy enw, a gwneud patrymau eitha artistig a deniadol, yn y modfeddi o faw a llaca oedd wedi setlo ar y cerrig llwydion. Ond buan y gwnes i sylweddoli fod mwy i “roi jet-wash i’r patio” na chwifio’r beipen ddŵr yma ag acw a mwynhau gweld y baw yn tasgu. Roedd yn rhaid setlo lawr a golchi pob carreg yn ofalus a thrwyadl yn eu trefn. Ac, o dipyn i beth, fe ddes i sylweddoli fod cerrig y patio yn eitha diddorol...

Mae pob carreg yn wahanol, yn meddu ar ei siâp a’i phatrwm a’i lliwiau unigol ei hun. Roedd yma gerrig mawr a bach, rhai llyfn a rhai garw, rhai du a rhai gwyn a rhai, fy ffefrynnau, oedd yn datgelu haenau o borffor a choch a melyn hardd. Dros y blynyddoedd roedd pob carreg wedi mynd i edrych yn union yr un fath, yn llwydaidd a di-fywyd ond, trwy ddewiniaeth y dyn “rhoi jet-wash i’r patio”, daeth pob un garreg yn fyw unwaith yn rhagor - yn un carped o liw a phatrwm a phersonoliaeth. Wrth i fi lafurio, ac wrth i fi astudio pob carreg o’r newydd, fe ges fy atgoffa o derm a ddysgais pan oeddwn yn ddyn ifanc yn teithio yn Japan - “Wabi-Sabi”.

Rydyn ni’r Cymry yn falch iawn o’r gair “hiraeth” gan nad oed cyfieithiad uniongyrchol iddo yn yr ‘iaith fain’ ond mae iaith Japan yn meddu ar ddegau o dermau am syniadau a theimladau sy’n gyffredin i ni i gyd ond sy’n anodd iawn i’w cyfieithu yn gryno. Ac un o’r rhain yw “Wabi-Sabi”.

Mae’n golygu gwerthfawrogi fod “perffeithrwydd mewn amherffeithrwydd naturiol” a bod “cyflawnder mewn pethau anghyflawn” sy’n ein hannog i werthfawrogi prydferthwch ym mhob dim gan nad ydy cyflwr o berffeithrwydd yn gyflwr parhaol. Hyn oll mewn dau air! Rydyn ni yn y Gorllewin yn aml yn cael ein hudo gan brydferthwch y “newydd sbon danlli” ac yn ddall i’r prydferthwch naturiol hwnnw sy’n perthyn i’r rhwyg yn y rhisgl, y crac mewn carreg neu’r graith ar groen.

“Glendid nid yw yn parhau...” chwedl yr hen gân. Neu “Waiting ‘till the shine wears off” chwedl Coldplay!

Dyna ddigon o athronyddu - a digon o “roi jet-wash i’r patio” am y tro. Dwi’n meddwl yr af i eistedd lawr i weld beth sydd ar Netflix neu S4C. Rhywbeth i’n diddanu a’n difyrru yn ystod y dyddiau rhyfedd hyn. Falle nad ydyn ni “Gyfarwyddwyr Teledu” cweit mor ddi-werth wedi’r cyfan!

Ymlyniad deugain mlynedd

Aelodau a chyfeillion Bethlehem ym mis Mai 1981

Roedd Delwyn Sion a Hergest yn arfer canu am “Ugain mlynedd yn ôl” yn 1976 – fe allwn ni fynd nôl ymhellach! Dyma adroddiad y capel yn cofnodi pwy oedd yn mynychu ymron ddeugain mlynedd yn ôl. Mi fyddwch yn cofio rhai ac yn adnabod nifer fawr sydd gyda ni o hyd! (Diolch i'r chwilotwr Rhodri-Gwynn Jones am hon!)

RHESTR AELODAU

1 Bateman,Robin,Yr Eglwys Newydd
2 Beech,Mrs Anne,Pfynnon Taf
3 Collins,Mrs M,Ty Rhiw
4 Castle,Meirion,Gwaelod y Garth
5 Castle,Mrs Nancy, "
6 Clement,David,Radur
7 Clement,Kay, "
8 Davies,Llinos,Tongwynlais (Mrs)
9 Davies,Mrs Eunice,Gwaelod y Garth
10 Davies,Meurig,Radur
11 Davies,Gordon,Radur
12 Davies,Keith,Pentyrch
13 Davies,Mrs Margaret,Pentyrch
14 Davey,Mrs Gwyneth,Creigiau
15 Downing,Mrs Irene,Rhiwbeina
16 Dimond,Miss Jane,Gwaelod y Garth
17 Davies,Mr D.M.,Abertawe
18 Evans,Eirwyn,Creigiau
19 Evans,Mefus,Creigiau (Mrs)
20 Evans,Miss Morfydd,Ty Newydd
21 Evans,John,Radur
22 Evans,Marian,Radur
23 Evans,Y Parchg.Owen,Canton
24 Evans,Mrs.
25 Evans,Miss Rhinedd "
26 Edwards,Rhys,Gwaelod y Garth
27 Edwards,Mrs., "
28 Edwards,Miss Mary "
29 Edwards,Miss Jean "
30 Fuller,Mrs Eirwen "
31 George,Mrs Elsie,Gwaelod y Garth
32 Griffiths,Mrs Martha "
33 Green,Miss Gilian, Caerdydd
34 Harris,Mrs Megan,Gwaelod y Garth
35 Hicks,Mrs Siriol,Llandaf
36 Humphreys,Emyr,Cyncoed
37 Humphreys,Mrs Elinor,Cyncoed
38 Hibbard,Mrs Rosina,Pfynnon Taf
39 Huws,Dr.Dafydd,Pfwrnes Blwm
40 Huws,Mrs Rhian, "
41 Hughes,Idris,Radur
42 Hughes,Mrs Eluned,Radur
43 Jeremy,Mrs Nest,Ty Newydd
44 Jones,Mrs Miriam,Pentyrch
45 Jones,Alwyn Harding,Pfynnon Taf
46 Jones,Angharad(Mrs), "
47 Jones,John,Radur
48 Jones,Mrs Eleri,Radur
49 Jones,Gwyn,Pentyrch
50 Jones,Mrs Vi,Pentyrch
51 Kemp,Edward Yr Eglwys Newydd
52 Kemp,Mrs M., "
53 Lewis,Mrs Hanna,Gwaelod y Garth
54 Millward,Miss Nansi "
55 Millward,Mrs Grace,Pfynnon Taf
56 Millward,Dafydd,Caerdydd
57 Miles,Mrs Dwynwen,Gwaelod y Garth
58 Moody,Mrs Joan,Radur
59 Oehler,Mrs Margaret,Creigiau
60 Phillips,A.W.,Ystradowen
61 Phillips,Trevor,Yr Eglwys Newydd
62 Phillips,Miss M,Canton
63 Phillips,Miss Eluned,Abertawe
64 Phillips,Alun,Gwaelod y Garth
65 Phillips,Miss Elin,Gwaelod y Garth
66 Pate,Gwilym,Tongwynlais
67 Rees,Y Parchg.Ifor,Rhiwbeina
68 Rees,Mrs Joan,Rhiwbeina
69 Roberts,Miss Ceri,Pentyrch
70 Roberts,Miss Sali,Pentyrch
71 Richardson,Mrs Delyth,Creigiau
72 Thomas,T.W.,Pentyrch
73 Thomas,Mrs Edwina,Pentyrch
74 Taylor,Mrs Vi,Gwaelod y Garth
75 Tudur,Y Parchg.Rhys "
76 Tudur,Mrs Elin "
77 Williams,Glyndwr,Radur
78 Williams,Mrs Ann, "
79 Williams,John ,Pentyrch
80 Williams,Mrs Gwyneth,Pentyrch

CYFEILLION YR ACHOS
(Heb fod yn aelodau eto)

81 Huw Llewelyn Davies Pentyrch
82 Carol Davies,Pentyrch (Mrs)
83 Bryan Davies,Creigiau
84 Enid Davies,Creigiau (Mrs)
85 Ken Evans,Pentyrch
86 Judith Evans,Pentyrch (Mrs)
87 Peredur Evans,Caerdydd
88 Mrs Delyth Evans, "
89 Rhodri Gwyn,Pentyrch
90 Barry John, Radur
91 Elwyn Tudno Jones,Radur
92 Mair Tudno Jones, "
93 Christopher Powell,Yr Eglwys Newydd
94 Wyn Roberts,Pentyrch
95 Gwilym Roberts,Rhiwbeina
96 John Williams,Radur
97 Mrs.Veronica Williams,Radur
98 Miss Margaret Parry,Radur

Gan nad yw rhestr yr aelodau yn cael ei gyhoeddi yn yr Adroddiad Ariannol,mae nifer o bobl wedi gwneud cais am gael rhestr.
Mewn eglwys o'r maint yma fe ddylai fod yn bosibl i bawb adnabod ei gilydd o ran enw os nad yn bersonnol.
Gobeithiaf y bydd y rhestr hon yn eich galluogi i roi enwau i'r gwynebau .

RHESTR
AELODAU
A
CHYFEILLION
EGLWYS
BETHLEHEM
GWAELOD Y GARTH
25 MAI 1981



PANTYCELYN

Aet ar dy gwrs drwy'r wlad, glerwr y nef,
Ac yn dy waled radd yr Ysbryd Glân,
Ti oeddit bencerdd Ei eisteddfod Ef
Ac athro gwarant yr holl glerwyr mân;
Gwelit dy Frenin ar Ei farch, a'i gledd
Yn medi cadau'r cnawd a'r byd a'r diawl,
Ac yn Ei blas Ei win, Ei seidr a'i fedd
A yfit, a gwau iddo glod a mawl.
I wladwyr, a gadwynid wrth y pridd,
Fel ychen wrth y dres, drwy gydol oes,
Cenaist, yn eu tafodiaith, gân y ffydd
A glywit ar ddiangen bren y groes,
A'u codi fry uwch cors a chraig a rhiw
A'u rhoi wrth fyrddau crwn danteithion Duw.

Allan o Cerddi Gwenallt: Y Casgliad Cyflawn
(Gol: Christine James) Gomer

O drysorfa luniau Eirlys Davies, Radur, y daw'r uchod. Mae'n hi'n awgrymu ei briodi â soned Gwenallt i'r Pêr Ganiedydd. Felly, gadewch i ni ei roi uwch ein colofn farddol!

ODLAU'R GARTH

Mewn Eglwys

(Addasiad o "In Church" R S Thomas)

Ceisiaf yn aml
Ddadansoddi ansawdd
Ei thawelwch. A'i dyma lle mae Duw yn cuddio
Ei hun oddi wrthyf? Arhosais i wrando,
Wedi i'r ychydig ffyddloniaid ymadael,
Ar yr awyr yn ail-greu ei hun
Ar gyfer yr wylnos. Mae wedi disgwyl fel hyn
Ers i'r cerrig gyrchu'n griw o'i gwmpas.
Rhain yw asennau caled
Corff na lwyddodd ein gweddïau
I'w gyffroi. Daw cysgodion
O'u corneli i berchnogi
Llecynnau a oleuwyd
Am awr. Parha'r ystlumod
A'u busnes. Daw anesmwythyd y seddau
I ben. Nid oes unrhyw sŵn arall
Yn y tywyllwch heblaw am sŵn dyn
Yn anadlu, yn profi ei ffydd
Ar wacter, gan hoelio ei gwestiynau
Un am un ar groes ddi-denant.

(addasiad - Rhodri-Gwynn Jones)

Mae Martin Huws wedi awgrymu gwahodd limrigau – ac yn ein cychwyn gyda'r isod:

Roedd Dafydd yn brysur un noson
yn darllen penawdau Newyddion.
Achos nam ar ei geg
fe ynganodd e reg.
Symudodd i'r Adran Borthorion.

* * * * * *

Tybed ydych chi wedi gweld y gerdd ***"Did nothing today"*** *(anad) ar ddrws neu fur eich ysgol leol?*

"Fawr o ddim"

Pan ddaw eich plentyn adref ar ddiwedd y dydd
Y cwestiwn ofynnwch chi'n aml fydd
"Beth wnes ti'n yr ysgol, heddiw, bach?"
Ac yna'n cael ateb, ar ôl tipyn o strach:
"Heddiw, wnaethon ni fawr o ddim!"
Ond tybed, tu ôl i'r ateb bach chwim,
Fod yna atebion eraill yn cuddio,
Megis darllen, neu gyfrif neu hwyrach arlunio
Neu wrando ar stori, efallai goginio;
Dewis llyfr bach o'r llyfrgell a bodio drwyddo
Neu ysgrifennu stori neu helpu ffrind;
Mae'n rhyfedd mor gyflym mae'r diwrnod yn mynd,
Wrth fwynhau canu neu wneud crefft gyda glud
Neu hwyrach freuddwydio bod chi'n teithio'r byd.
Ac yn bedair neu bump mae hi'n andros o dreth -
Haws dweud "Fawr o ddim" na gorfod cofio pob peth!

IR (addasiad)